# Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

**2013 dccc 6**

## RHAN 2

TRWYDDEDU SAFLEOEDD CARTREFI SYMUDOL ETC.

*Trwyddedau safle*

### 5 Gwahardd defnyddio tir fel safle rheoleiddiedig heb drwydded safle

(1) Rhaid i berchennog safle rheoleiddiedig beidio ag achosi na chaniatáu i'r safle gael ei ddefnyddio fel safle rheoleiddiedig oni bai bod gan y perchennog drwydded o dan y Rhan hon ar gyfer y tir ("trwydded safle").

(2) Mae person sy'n mynd yn groes i is-adran (1) yn cyflawni trosedd.

(3) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (2) yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy.

### 6 Gwneud cais am drwydded safle

(1) Mae cais am ddyroddi trwydded safle ar gyfer unrhyw dir i'w wneud gan berchennog y tir i'r awdurdod lleol y mae'r tir wedi ei leoli yn ei ardal.

(2) O ran cais o dan yr adran hon—

- (a) rhaid iddo bennu'r tir y gwneir y cais ar ei gyfer,
- (b) rhaid iddo enwi'r ymgeisydd,
- (c) os nad yr ymgeisydd fydd rheolwr y safle, rhaid iddo enwi'r person sydd am fod yn rheolwr ar y safle, a
- (d) rhaid iddo gydymffurfio ag unrhyw ofynion eraill a bennir gan yr awdurdod lleol.

(3) Rhaid i ymgeisydd, naill ai ar adeg gwneud y cais neu wedyn, roi i'r awdurdod lleol unrhyw wybodaeth arall y mae'n rhesymol i'r awdurdod lleol ofyn amdani.

(4) I gyd-fynd â'r cais rhaid cael datganiad gan yr ymgeisydd—

(a) mewn achos lle nad yw'r ymgeisydd am fod yn rheolwr ar y safle, fod y person a enwir yn unol ag is-adran (2)(c), neu
(b) mewn unrhyw achos arall, fod yr ymgeisydd,

yn berson addas a phriodol i reoli'r safle.

(5) Caiff awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i ffi a bennir gan yr awdurdod lleol gael ei hanfon ynghyd â'r cais am drwydded safle (gweler adran 36 ynglŷn â hyn).

## 7 Dyroddi trwydded safle

(1) Caiff awdurdod lleol ddyroddi trwydded safle ar gyfer tir os oes gan yr ymgeisydd, pan ddyroddir y drwydded safle, hawl i fanteisio ar ganiatâd cynllunio i ddefnyddio'r tir fel safle i gartrefi symudol heblaw drwy orchymyn datblygu.

(2) Os oes gan yr ymgeisydd hawl i fanteisio ar ganiatâd cynllunio o'r fath ar y dyddiad y mae'r ymgeisydd yn rhoi'r wybodaeth y gofynnir amdani yn rhinwedd adran 6, caiff yr awdurdod lleol ddyroddi trwydded safle ar gyfer y tir o fewn 2 fis ar ôl y dyddiad hwnnw neu, os bydd yr ymgeisydd a'r awdurdod lleol yn cytuno mewn ysgrifen y caniateir cyfnod hirach i'r awdurdod lleol ddyroddi trwydded safle, o fewn y cyfnod y cytunir arno.

(3) Os caiff yr ymgeisydd hawl i fanteisio ar ganiatâd cynllunio rywbryd ar ôl rhoi'r wybodaeth y gofynnir amdani yn rhinwedd adran 6, caiff yr awdurdod lleol ddyroddi trwydded safle ar gyfer y tir o fewn 6 wythnos ar ôl y dyddiad y mae'r ymgeisydd yn cael yr hawl i fanteisio ar ganiatâd cynllunio neu, os bydd yr ymgeisydd a'r awdurdod lleol yn cytuno mewn ysgrifen y caniateir cyfnod hirach i'r awdurdod lleol ddyroddi trwydded safle, o fewn y cyfnod y cytunir arno.

(4) Pan fo awdurdod lleol yn penderfynu peidio â dyroddi trwydded safle o dan is-adran (2) neu (3)—
(a) rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r ymgeisydd am y rhesymau dros y penderfyniad ac am hawl yr ymgeisydd i apelio o dan baragraff (b),
(b) caiff yr ymgeisydd, o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y gwneir y penderfyniad, apelio at dribiwnlys eiddo preswyl yn erbyn y penderfyniad, ac
(c) ni chaniateir hawlio digollediad am golled a ddioddefir yn sgil y penderfyniad hyd nes y ceir canlyniad yr apêl.

(5) Rhaid i awdurdod lleol beidio ar unrhyw adeg â dyroddi trwydded safle i berson y gŵyr yr awdurdod lleol ei fod wedi dal trwydded safle a ddirymwyd o dan adran 18 neu 28 lai na 3 blynedd cyn yr adeg honno.

(6) Pan fo awdurdod lleol yn methu penderfynu ar gais am drwydded safle o fewn y cyfnod y mae'n ofynnol iddo wneud hynny, nid oes trosedd o dan adran 5 wedi ei gyflawni o ran y tir gan y person a wnaeth y cais am y drwydded safle ar unrhyw adeg ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw hyd nes bod penderfyniad ar y cais wedi ei wneud.

## 8 Parhad trwydded safle

(1) Daw trwydded safle'n weithredol ar yr adeg a bennir yn y drwydded safle neu odani ac, oni chaiff ei therfynu drwy gael ei dirymu, mae'n parhau mewn grym am y cyfnod a bennir yn y drwydded safle neu odani.

(2) Rhaid i'r cyfnod hwnnw ddod i ben heb fod yn fwy na 5 mlynedd ar ôl y diwrnod y daw'r drwydded safle yn weithredol.